(HCC 797)

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 11 Ionawr 2018**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John Davies, Helen Howells (trwy gyfrwng telegynhadledda), Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Christianne Glossop (Llywodraeth Cymru)
Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)
Martin Williams (Partneriaeth Ardystiad Allforio y DG – (UKECP)
Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitemau 8 a 9)

**Y Tîm Rheoli:** Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Martin Williams, UKECP, a'r Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru (CVO), Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd:-

*Cyfarfodydd Sirol yr Undebau Amaethyddol*

- 2 Tachwedd 2017 - Cynhadledd Flynyddol NFU Cymru
- 7 Tachwedd 2017 – Cyfarfod hwyrol UAC Morgannwg
- 9 Tachwedd 2017 – Cynhadledd Flynyddol HCC a chyfarfod hwyrol UAC Gwent
- 16 Tachwedd 2017 – Cynhadledd Ffermio UAC Sir Drefaldwyn
- 28 – 29 Tachwedd 2017 Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf, Llanelwedd
- 6 Rhagfyr 2017 - Cyfarfod hwyrol UAC Caerfyrddin

- 7 Rhagfyr 2017 – Grŵp Cynghori Ewropeaidd y Prif Weinidog

- 13 Rhagfyr 2017 – Cystadleuaeth Garcasau 2 Sisters FG (y panel beirniadu)

- 3 – 4 Ionawr 2018 - Cynhadledd Ffermio Rhydychen 2018

- Yn ystod y cyfnod, bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cymryd rhan mewn telegynadleddau ynghylch Mamwladoli Ardoll (Gweler Eitem 11)

Nodwyd bod adborth adeiladol wedi ei dderbyn gan randdeiliaid a'r ddau Undeb Amaethyddol yn dilyn presenoldeb y Cadeirydd a'r tîm Gweithredol / Rheoli mewn cyfarfodydd sirol.

2. **<u>I gael cyflwyniad am waith Partneriaeth Ardystiad Allforio y DG (UKECP)</u>**

Rhoddwyd manylion llawn gwybodaeth gan Martin Williams, Rheolwr y Prosiect ac arweinydd y cymorth i'r sector cig, am swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bartneriaeth. Dosbarthwyd Adroddiad Blynyddol am waith UKECP.

3. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Huw Davies, Illtud Dunsford a Barrie Jones.

4. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

Nodwyd nad oedd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi derbyn ateb eto gan bob un o'r Cyfarwyddwyr i lythyr y Prif Weithredwr ar 23 Tachwedd 2017 ynghylch Datgelu Cyfrinachedd, Gwrthdaro Buddiannau a Gwrthlwgrwobrwyo. Roedd yn bwysig fod y Cyfarwyddwyr yn ymateb i'r cais hwn oherwydd roedd yn ddyletswydd statudol.

Byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cysylltu â'r Cyfarwyddwyr bob yn un er mwyn adolygu eu hymatebion a gwneud yn siŵr fod yr wybodaeth yn gyson â datganiadau blaenorol.

Yn y cyfamser, dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

5. **<u>I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Tachwedd 2017 (HCC 787)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Tachwedd 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

6. **Materion yn codi**

*Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 – 2017 ar gyfer Cynllun Gweithredu Strategol y Diwydiant Cig Coch yng Nghymru*

Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet a'i gyhoeddi wedyn gan HCC.

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill 2018 / 2019*

Nodwyd bod argymhelliad y Bwrdd y dylid cadw cyfraddau a chostau adennill yr Ardoll 2018 / 2019 yr un fath ag ar gyfer 2017 / 2018 wedi cael ei rannu â swyddfa Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn ei ystyried gan Weinidogion Cymru. Ni chafwyd ateb mor belled.

*Yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru*

Rhoddodd anerchiad llawn gwybodaeth am swyddogaeth a chyfrifoldebau Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol.

Mae gan y Swyddfa gyfrifoldeb dros godi safonau iechyd a lles yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru – anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, ac anifeiliaid gwaith a hela.

Yn unol â'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid, prif amcanion Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol oedd:

- gwarchod rhag ymosodiad ac ymlediad clefydau anifeilaidd dieithr a bod yn barod drwy'r amser i ddelio ag unrhyw achosion
- cynnal rhaglen o ddileu TB mewn Gwartheg
- rheoli clefydau brodorol
- hyrwyddo safonau uwch er mwyn gwella iechyd a lles anifeiliaid.

Roedd y meysydd gwaith yn cynnwys sgil-gynhyrchion anifeilaidd, lles anifeiliaid, clefydau brodorol, gan gynnwys TB mewn gwartheg, clefydau dieithr a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn gweithio'n agos ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yn ogystal â gweinyddiaethau datganoledig.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd:-

- y dylai Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi HCC fynychu cyfarfod o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i wneud yn siŵr fod yna gydweithio cysylltiedig ac i drafod posibiliadau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

- y dylai HCC wahodd aelod o'r Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid i fod ar Bwyllgor Gwaith Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi HCC.

- y dylid ymchwilio i weld a oedd yna gyfle i HCC gael ei gynrychioli ar Bwyllgor Cynghreiriol Gwneud Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA). Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw gorff o Gymru yn gwasanaethau ar y Pwyllgor.

- y dylai HCC gymryd rhan yn yr ymarfer i brofi cynlluniau wrth gefn i ddelio â Chlwy'r Traed a'r Genau – "Exercise Blackthorn".

7. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 788)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

***Cyfathrebu***

*Gwefan Gorfforaethol HCC*

Roedd y gwaith ar y dyluniadau gweledol ar gyfer yr uchod yn mynd rhagddo. Rhagwelid y byddai'r wefan ar ei newydd wedd yn cael ei lansio yn ystod mis Ebrill 2018.

*Digwyddiad Enwau Bwyd Gwarchodedig (PFN) yn San Steffan – 15 Mai 2018*

Roedd gan HCC ran i'w chwarae wrth drefnu'r uchod. Byddai'r digwyddiad yn gyfle i arddangos cynhyrchion ac i drafod ag Aelodau Seneddol fanteision a phwysigrwydd y cynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig cyfredol i frandiau Cymreig. Roedd y trafod â Llywodraeth y DG ynglŷn â hyn yn parhau.

***Datblygu'r Diwydiant***

*Adolygiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth AHDB), ar y cyd â QMS a HCC, o Ystodau Pwysau Wyn SQQ*

Nodwyd bod y cyfnod i wneud sylwadau am yr uchod wedi dod i ben ar 31 Rhagfyr 2017a bod dros 200 o ymatebion wedi cael eu cyflwyno. Roedd yr ymatebion hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan AHDB, HCC a QMS a rhoddid y canlyniad maes o law.

***Datblygu’r Farchnad***

Yr Emiraethau Arabaidd Unedig / *Trafferthion Allforio i Wledydd Cydweithredu’r Gwlff (GCC) oherwydd problemau ardystio*

Nododd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad nad oedd yr Awdurdod Bwyd Halal (HFA) bellach yn gorff achrededig ar gyfer goruchwylio allforion cig defaid i Wledydd Cydweithredu’r Gwlff.

Roedd HCC mewn trafodaethau â lladd-dai allweddol yng Nghymru ynglŷn â hyn ac yn ddiweddar cyfarfu â RACS (corff ardystio Halal yn yr Almaen) gyda golwg ar gael corff ardystio newydd. Felly, roedd gwaith yn mynd rhagddo i geisio cael hyd i ateb.

*Cynhadledd Flynyddol y Cyngor Gwobrwyo Cymdeithasau Amaethyddol (CARAS)*

Byddai’r Rheolwr Datblygu'r Farchnad yn rhoi cyflwyniad i’r uchod ar 26 Ionawr 2018.

*Ymgyrch HCC i hybu Cig Eidion Cymru PGI ymhlith y Defnyddwyr*

Roedd gweithgareddau ynglŷn a’r uchod yn parhau. Fel rhan o’r ymgyrch, byddai HCC yn lansio cystadleuaeth “Gwobr Gofalwr Maes y Flwyddyn”, gan barhau â'r thema ‘gwreiddiau a rygbi’.

Byddai manylion am y gystadleuaeth yn ymddangos ar wefan Cig Eidion Cymru PGI http://eatwelshlambandwelshbeef.com/en/welsh-beef/groundskeeper

Y beirniaid fyddai’r chwaraewr rygbi rhyngwladol Dan Lydiate; Len Smith, Cyn-brif Gofalwr Maes Clwb Criced Morgannwg; a Charlie Morgan, ymgynghorydd tir glas. Byddai’r buddugwr yn derbyn tlws a gwerth £500 o ddillad awyr agored.

Câi gwerthusiad o ymgyrch Cig Oen Cymru PGI i ddefnyddwyr ar gyfer 2017 / 2018 ei gyflwyno i’r Bwrdd yn ystod y cyfarfod ar 8 Mawrth 2018.

b. *I dderbyn adroddiad llafar ynghylch Rhagolygon Alldro 2017 / 2018*

Cafwyd y diweddaraf gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol am y Rhagolygon Alldro diwygiedig a gafodd eu cyflwyno i’r Bwrdd ar 8 Tachwedd 2017.

Roedd y rhagolygon yn dal i gael eu hadolygu yn rheolaidd ac ar hyn o bryd roeddynt yn awgrymu y ceid sefyllfa o fod heb ennill na cholli ar ddiwedd y flwyddyn, yn unol â'r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2017 / 2018.

c. *Bwletin y Farchnad (HCC 789)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *Digwyddiadau i ddod (HCC 790)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

8. **Corfforaethol**

Ymunwyd â'r cyfarfod gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

a. *I gymeradwyo Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol HCC hyd at 2025 (HCC 791)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

Y camau nesaf: Câi'r ddogfen ei hanfon i'w chyfieithu gyda'r bwriad o'i lansio yn ystod gwanwyn 2018.

b. *I gymeradwyo Cynllun Corfforaethol HCC ar gyfer 2018 / 2021 (HCC 792)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

c. *I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2018 / 2019 (HCC 793)*

Cyflwynwyd yr uchod gan y Prif Weithredwr a chafodd sylwadau'r Bwrdd eu trafod a'u nodi.

Nodwyd bod y Gofrestr Risg wedi ei chynnwys yn y Cynllun yn unol â'r hyn a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Roedd angen i'r Cynllun gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn y cyfarfod ar 8 Mawrth 2018. Felly, dylai unrhyw adborth neu sylwadau pellach nad oedd yn rhaid i'r Bwrdd eu trafod gael eu cyfeirio at y Swyddog Gweithredol Cig Coch heb fod yn hwyrach na 15 Ionawr 2018 er mwyn gallu cynnwys newidiadau yn y drafft terfynol.

Yna câi'r Cynllun ei rannu ag adran nawdd Llywodraeth Cymru er mwyn cael adborth.

Byddai drafft diwygiedig o'r Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn y cyfarfod nesaf, ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau a wnaed er cyfarfod y Bwrdd ar 11 Ionawr 2018.

9. **I dderbyn a chymeradwyo'r Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2018 / 2019 (HCC 794 )**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

10. **Pwyllgorau HCC**

*I dderbyn adroddiad a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Tachwedd 2017 (HCC 795)*

Cafwyd adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Tachwedd 2017 gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Tachwedd 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

11. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Cyflwynwyd papur briff ar "Ardollau Cig Coch – adroddiad grŵp trafod cyllid wedi ei glustnodi ar y cyd, Ionawr 2018" er gwybodaeth y Bwrdd. Cafodd hyn ei rannu â Byrddau AHDB a QMS yr un pryd.

Parhaodd y cyfarfodydd a thelegynadleddau rhwng pawb, a chafwyd cytundeb ynghylch y cytundeb dros dro ar gyllid Ardoll wedi'i Glustnodi ar gyfer 2018 / 2019 (£2m).

Yn ystod yr wythnosau nesaf byddai tîm y Weithrediaeth yn bwrw ymlaen gyda swyddogion cyfatebol ar waith a gweithgareddau cydweithredol yn seiliedig ar bum maes blaenoriaethol:-

- Sioeau rhyngwladol a digwyddiadau allforio
- Mynediad i Farchnadoedd
- Paratoi ar gyfer Brexit
- Cig ac iechyd, iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd
- Ymchwil a datblygu

Ceid datganiad ar y cyd cyn bo hir gan AHDB, HCC a QMS.

Yn y cyfamser, byddai'r trafod yn parhau gyda golwg ar gael hyd i ateb hirdymor.

Cafodd y cynnydd a'r canlyniad positif ynghylch y mater hwn ei groesawu gan y Bwrdd.

12. **I dderbyn gwybodaeth am y sioeau teithiol Brexit a fyddai'n cael eu cynnal gan AHDB a HCC**

Rhoddodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant ddiweddariad i'r Bwrdd o'r trefniadau ar gyfer yr uchod:

Roedd HCC yn cydweithio â AHDB er mwyn cynnal cyfres o sioeau teithiol ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 30 Ionawr 2018, Gwesty Nant-y-ffin, Clunderwen (1:30pm -3:30pm)
- 30 Ionawr 2018, Bishops Meadow, Aberhonddu (7:30pm-9:30pm)
- 7 Chwefror 2018, Kinmel Manor, Abergele (7:30pm-9:30pm)
- 8 Chwefror 2018, Marchnad Da Byw Y Trallwng (7:30pm-9:30pm)

Thema'r sioeau teithiol oedd "Brexit: y goblygiadau i amaethyddiaeth Cymru a'ch fferm chi", a byddent yn ceisio cynghori ffermwyr ar sut y gallai Brexit ddylanwadu ar fusnesau fferm ar ôl ymadael â'r UE.

13. **I dderbyn diweddariad llafar ynghylch cais HCC am gyllid gan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020 ar ran y Diwydiant Cig Coch**

Nodwyd bod cais HCC ar gyfer y Rhaglen Fenter Strategol yn debygol o fod yn werth £9m dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai ar gyfer prosiectau defaid a chig eidion ac yn canolbwyntio ar Welliant Genetig, Ansawdd Cig, Iechyd Anifeiliaid ac Effeithlonrwydd Cig Eidion. Cafodd y cais ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried ac roedd disgwyl ateb.

14. **Papur er gwybodaeth: - I dderbyn adroddiad ar ôl presenoldeb HCC yn Sioe Fasnach Anuga, Hydref 2017 (HCC 796)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei groesawu gan y Bwrdd fel gwybodaeth i'w throsglwyddo i dalwyr Ardoll.

15. **Unrhyw fater arall**

*Taith Rhaglen Integreiddio Cadwyn Gyflenwi'r Sector Cig Coch i Seland Newydd*

Roedd y Cadeirydd wedi cael gwahoddiad gan Uwch-gomisiynydd Prydain a Defra i fynd ar taith ymchwil i Seland Newydd fel rhan o Raglen Integreiddio Cadwyn Gyflenwi'r Sector Cig Coch yn y DG, 12 – 19 Mawrth 2018. Cafodd AHDB, QMS a chyrff eraill o'r diwydiant hefyd wahoddiad i gymryd rhan.

Roedd y daith yn cynnwys ymweld â diwydiannau sylfaenol, trosolwg o’r polisi amaethyddol ac o Raglen Integreiddio’r Gadwyn Gyfenwi; cyflwyniad i’r Weinyddiaeth Ddiwydiannau Sylfaenol a throsolwg o Beef+Lamb NZ a Chymdeithas y Diwydiant Cig.

Roedd y Bwrdd yn gefnogol i daith y Cadeirydd.

*Cronfa Bontio £50m yr UE*

Nodwyd bod y Prif Weinidog, yr wythnos hon, wedi cyhoeddi y byddai £50m ar gael i fusnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau allweddol eraill yng Nghymru er mwyn iddynt gael cymorth penodol wrth i’r DG baratoi i ymadael a’r UE.

Byddai’r gronfa’n darparu cyfuniad o gymorth ariannol a chyllid benthyca. Byddai’n cefnogi'r ddarpariaeth o gyngor technegol a masnachol i fusnesau, ynghyd â chyngor yn ymwneud ag allforio a sectorau penodol.

Cytunwyd y byddai’r Prif Weithredwr yn ymchwilio ymhellach i hyn.

16. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 8 Mawrth 2018

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**